Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llanfawr
# Caergybi
# Ynys Môn
# LL65 2DS

# Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2016

# gan

# Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Crynodeb

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd ardderchog o'u mannau cychwyn.  Maent yn cyfranogi'n frwdfrydig iawn yn eu dysgu, yn barod i fentro ac yn dangos balchder tuag at yr ysgol a'u gwaith.

Ar y cyfan, mae athrawon yn darparu gweithgareddau dysgu diddorol, sy'n cymell disgyblion i fwynhau dysgu.  Mae'r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth glir sy'n seiliedig ar roi'r cyfle gorau posibl i bob plentyn i lwyddo mewn amgylchedd diogel a hapus.  Mae trefniadau cynhwysfawr yn eu lle er mwyn gwerthuso gwaith yr ysgol a sicrhau gwelliant.  Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i waith yr ysgol.

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn cynnal safonau uchel ac ansawdd y ddarpariaeth ac yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Argymhellion

A1 Gwella darpariaeth ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig

A2 Cynllunio cyfleoedd cadarn i ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ddatblygu'r ystod lawn o fedrau rhifedd ar draws y cwricwlwm

A3 Sefydlu statws ieithyddol clir i'r ysgol

A4 Cryfhau rôl y llywodraethwyr fel eu bod yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol yn effethiol er mwyn gweithredu'n fwy strategol

## Prif ganfyddiadau

| 1: Safonau | Da |
|---|---|

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd ardderchog o'u mannau cychwyn. Maent yn adalw dysgu blaenorol yn effeithiol ac yn cymhwyso eu medrau meddwl yn llwyddiannus. Mae gan lawer fedrau cyfathrebu Cymraeg a Saesneg arbennig, sydd yn rhoi mynediad cyflawn iddynt i ystod eang y cwricwlwm. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf yn cyfranogi'n frwdfrydig iawn yn eu dysgu ac maent yn barod i fentro a chynnig atebion addas.

Mae rhan fwyaf o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn gwrando'n astud ac yn trafod eu gwaith yn hyderus. Maent yn ymateb yn ddeallus i gyfarwyddiadau gan ddefnyddio cystrawen addas a geirfa sy'n briodol i'w hoed a'u gallu. Mae'r mwyafrif yn mwynhau darllen ac yn gwneud cynnydd priodol bob blwyddyn. Mae ychydig o ddisgyblion mwy abl yn trafod cynnwys storïau'n fanwl gan gyfeirio at ddigwyddiadau penodol a'u hoff gymeriad. Mae llawer yn datblygu medrau ysgrifennu cadarn erbyn Blwyddyn 2. Maent yn ysgrifennu'n synhwyrol ac yn annibynnol, yn deall gwahanol arddulliau ysgrifennu'n dda ac yn cyflwyno eu gwaith yn daclus.

Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn cyfathrebu'n glir ac yn hyderus yn y ddwy iaith, gan ymuno â thrafodaethau yn frwdfrydig. Mae mwyafrif y disgyblion hŷn yn trafod eu gwaith yn ddeallus gydag aeddfedrwydd a chan ddefnyddio geirfa ymestynnol. O ystyried eu mannau cychwyn isel iawn, mae medrau llafar Cymraeg llawer o ddisgyblion yn rhagorol. Mae llawer yn darllen yn hyderus yn Saesneg, gan ddangos ymwybyddiaeth dda o gynulleidfa. Maent yn cywain gwybodaeth berthnasol o wahanol destunau, gan gynnwys y we, yn effeithiol. Ar frig yr ysgol, mae medrau trawsieithu mwyafrif y disgyblion yn dda iawn. Mae llawer yn defnyddio ystod dda o arddulliau ysgrifennu'n greadigol ac yn ystyried y darllenwyr yn ofalus wrth gyflwyno eu gwaith, er enghraifft wrth gyfansoddi cerddi teimladwy. Fodd bynnag, nid yw medrau ysgrifennu ychydig o ddisgyblion ieuengaf cyfnod allweddol 2 yn datblygu'n ddigon cadarn.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad mathemategol. Mae'r rhan fwyaf yn trin arian yn gywir, ac yn datblygu dealltwriaeth dda o fesur, amser a phwyso. Fodd bynnag, nid yw'r mwyafrif yn defnyddio ystod lawn o fedrau rhifedd ar draws y meysydd dysgu.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae safonau rhan fwyaf y disgyblion mewn gwersi mathemateg yn gadarn. Maent yn datrys problemau mewn pynciau eraill yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf yn cyflawni gwaith ymestynnol iawn wrth baratoi graffiau amrywiol er mwyn cyflwyno gwybodaeth yn seiliedig ar ymchwiliadau gwyddonol.

Yn y Cyfnod Sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn dda mewn gweithgareddau iaith, trin data ac wrth ddatrys problemau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn prosesu geiriau yn llwyddiannus, yn paratoi cyflwyniadau ac yn creu darluniau a phosteri pwrpasol. Erbyn diwedd y cyfnod, maent yn cymhwyso eu medrau yn dda ar draws y cwricwlwm ac yn datblygu eu medrau codio yn briodol, sy'n cryfhau eu medrau meddwl.

Mae rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd cadarn yn erbyn eu targedau personol.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen dros gyfnod o bedair blynedd, mae cyrhaeddiad y disgyblion ar y deilliant disgwyliedig wedi amrywio rhwng y 25% uchaf a'r 50% is o gymharu ag ysgolion tebyg. Mae perfformiad ar y deilliant uwch yn gyffredinol wedi bod rhwng y 25% uchaf a'r 50% uwch.

Mae cyrhaeddiad y disgyblion dros yr un cyfnod ar y lefel ddisgwyliedig ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn gosod yr ysgol rhwng y 25% uchaf ar 50% uwch o ysgolion tebyg. Ar y lefel uwch, mae cyrhaeddiad disgyblion yn gosod yr ysgol gan amlaf yn y 25% uwch.

| **2: Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
|---|---|

Mae gan bron pob disgybl agwedd gadarnhaol tuag at eu gwaith. Maent yn datblygu'n ddysgwyr chwilfrydig sy'n ymateb yn dda iawn i'r ethos gofalgar a chynhwysol sy'n rhan annatod o fywyd yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf yn deall yn gadarn sut i gadw eu hunain yn ddiogel gan gynnwys e-ddiogelwch, ac yn gwybod at bwy i droi pan fo angen cymorth.

Wrth gydweithio, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn trin eraill gyda lefel uchel o barch a goddefgarwch. Maent yn ymateb yn gwrtais i syniadau eraill ac mae eu medrau cymdeithasol yn datblygu'n dda iawn o fannau cychwyn cymharol isel. Mae'r disgyblion hŷn yn gofalu am y rhai iau ac maent yn llysgenhadon effeithiol o werthoedd yr ysgol sy'n seiliedig ar yr egwyddor bod gan bob unigolyn yr hawl i lwyddo. Mae'r rhan fwyaf yn siarad am eu gwaith yn hyderus ac mae eu balchder tuag at yr ysgol a'u llwyddiannau yn gadarn. Mae llawer yn cymryd cyfrifoldeb ac yn gwneud penderfyniadau annibynnol. Mae llais y disgybl yn bwysig ac mae'n dylanwadu'n llwyddiannus ar fywyd yr ysgol. Mae'r cyngor ysgol yn cyfrannu'n arbennig trwy gymryd cyfrifoldeb am fonitro un o brif flaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol sy'n ymwneud ag ymddygiad amser chwarae.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i strwythur o reoli ymddygiad positif. Maent yn ymddwyn yn arbennig o dda mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol.

Mae lefel ymrwymiad bron pob un yn addas ac maent yn ymroi i weithgareddau'n syth mewn gwersi. Mae llawer yn dyfalbarhau am gyfnodau estynedig ac yn ystyried ffyrdd gwahanol o weithio os nad yw eu hymdrechion cychwynnol yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd mynychu'r ysgol yn rheolaidd ac yn brydlon. Dros gyfnod o bedair blynedd, mae'r canran presenoldeb wedi cynyddu'n raddol ac mae nifer o absenoldebau cyson wedi gostwng yn sylweddol.

Mae bron pob un disgybl yn deall sut i fyw a bwyta'n iach. Maent yn manteisio'n gyson ar gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol amser egwyl, er enghraifft gemau pêl a sgwteri. Mae cynlluniau effeithiol ar gyfer glanhau dannedd a monitro bocsys bwyd gan y grŵp ysgol iach yn sicrhau bod rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud dewisiadau iach wrth yfed a bwyta.

| 3:  Addysgu a phrofiadau dysgu | Da |
|---|---|

Yn gyffredinol, mae ansawdd yr addysgu yn yr ysgol yn dda.  Mae rhan fwyaf yr athrawon yn cynllunio gweithgareddau diddorol sy'n annog ac yn cymell disgyblion i gymryd rhan yn eu dysgu.  Maent yn sicrhau bod ystod eang y cwricwlwm yn ennyn diddordeb a chwilfrydedd y rhan fwyaf o ddisgyblion.  Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda iawn o anghenion lles y disgyblion ac maent yn holi disgyblion yn fedrus i ddatblygu eu hyder, eu medrau meddwl a'u dealltwriaeth yn effeithiol.

Mae cynlluniau gwaith yn sicrhau bod gweithgareddau'n ymgorffori gofynion statudol y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd yn briodol ac mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen wedi eu gwreiddio'n gadarn.  Fodd bynnag, mae darpariaeth ar gyfer datblygu'r Cwricwlwm Cymreig yn anghyson.  O ganlyniad, nid yw disgyblion yn cael profiadau digon rheolaidd er mwyn datblygu eu dealltwriaeth o'u treftadaeth a diwylliant Cymru.

Mae'r ddarpariaeth ar draws yr ysgol yn cynnwys cyfleoedd cadarn i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llythrennedd yn gynyddol o fewn amrywiaeth o feysydd cwricwlaidd.  Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm yn cynnwys yr holl ystod o fedrau, yn enwedig yn y Cyfnod Sylfaen.  Mae'r ysgol yn cynllunio'n ofalus ar gyfer datblygu medrau TGCh y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda.

Mae llawer o athrawon yn defnyddio amrywiaeth eang o arddulliau addysgu yn effeithiol ac yn defnyddio'r ardal allanol eang yn fuddiol i gyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn effeithiol.  Maent yn sefydlu amcanion dysgu priodol ac yn eu rhannu'n bwrpasol gyda disgyblion i sicrhau pwrpas i'r dysgu.  Yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau, mae athrawon yn gwella dysgu disgyblion ac yn gosod heriau sy'n ysgogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol.  Mae llawer o gynorthwywyr dysgu yn gwybod pryd i ymyrryd ac yn darparu cymorth effeithiol i unigolion a grwpiau o ddisgyblion.

Mae gan yr ysgol ystod effeithiol o weithdrefnau asesu perthnasol sy'n darparu proffil cywir a chynhwysol o alluoedd pob disgybl.  Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol i lywio'r camau nesaf yn natblygiad unigolion ac i adnabod y rhai sydd angen cymorth ychwanegol.  Mae defnydd effeithiol o strategaethau asesu ar gyfer dysgu yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau yn datblygu gallu'r disgyblion i werthuso eu gwaith yn briodol.  Gan amlaf, mae sylwadau athrawon yn tynnu sylw disgyblion at gryfderau'r gwaith yn ogystal â sut i wella eu gwaith.

Mae'r ysgol yn trefnu profiadau ysgogol fel sbardun i'w gwaith themâu.  Mae'n darparu ystod eang o glybiau a gweithgareddau allgyrsiol sy'n cyfoethogi dysgu'r disgyblion yn llwyddiannus ac yn cyfrannu'n dda iawn at safonau lles y disgyblion.  Mae cyfleoedd gwerthfawr i'r disgyblion gymryd rhan mewn gweithgareddau amgylcheddol a gwneud defnydd effeithiol a pharhaus o'r amgylchedd dysgu tu allan.

Mae bron pob aelod o staff yn modelu'r iaith Gymraeg i safon uchel iawn ac maent yn annog disgyblion i ddefnyddio'r iaith yn ystod gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol.  Mae athrawon yn darparu cyfleoedd ystyrlon i ddisgyblion adeiladu'n effeithiol ar brofiadau blaenorol er mwyn sicrhau datblygiad cadarn a pharhad yn y Gymraeg.

| 4: Gofal, cymorth ac arweiniad | Da |
|---|---|

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer datblygiad emosiynol a chymdeithasol llawer o ddisgyblion a'u teuluoedd yn effeithiol iawn. Mae'r bartneriaeth arbennig hon yn cael effaith gadarnhaol ar les bron pob disgybl. O ganlyniad, maent yn teimlo'n hapus a diogel ac yn awyddus i ddod i'r ysgol. Mae ystod dda o weithgareddau llwyddiannus, er enghraifft y Clwb Pyramid sy'n codi hyder disgyblion a chefnogaeth swyddog lles yr ysgol, yn cyfrannu'n briodol at godi cyfraddau presenoldeb a phrydlondeb.

Mae'r pennaeth a'r athrawon yn defnyddio system olrhain cynnydd fanwl sydd yn gwneud defnydd pwrpasol o gyflawniad disgyblion unigol. Mae athrawon yn dadansoddi asesiadau athrawon a deilliannau profion cenedlaethol yn dda i fesur cynnydd disgyblion er mwyn cynllunio'r camau nesaf yn eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol iawn o'u targedau ac yn gwybod beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu gwaith.

Mae trefniadau ar gyfer adnabod ac ymateb i anghenion disgyblion penodol yn drylwyr. Mae'r ysgol yn mesur effaith rhaglenni ymyrraeth ar gyflawniad y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hyn yn sicrhau lefel briodol o gefnogaeth a her iddynt

Mae cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu dealltwriaeth gadarn o sut i gadw eu hunain yn ddiogel a byw bywyd iach. Mae ymweliadau gan yr heddlu a hyfforddwyr chwaraeon, gweithgareddau'r grŵp ysgol iach a gweithdai am ddiogelwch ar y we yn cynorthwyo'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud dewisiadau synhwyrol. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd cadarn i gasglu syniadau'r disgyblion, er enghraifft trwy ddefnyddio wal gwestiynau a gridiau cynllunio. Nodwedd arbennig yr ysgol yw gwaith y cyngor ysgol sy'n datblygu medrau arweinyddiaeth llawer o ddisgyblion yn gadarn.

Mae'r ysgol yn galluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu dealltwriaeth drwyadl o fywyd ac arferion gwledydd ar draws y byd. Er enghraifft, bu'r thema 'Teithio Trwy America' yn gyfle buddiol i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 ddysgu am diriogaeth a thaleithiau'r wlad. Mae cyfleoedd gwerthfawr i alluogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu'n ddinasyddion gwybodus sydd â dealltwriaeth gadarn o foesau, credoau a chrefyddau gwahanol, er enghraifft wrth i ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen greu patrymau Mendi tra'n astudio Diwali, ac wrth i ddisgyblion hŷn ystyried a oes angen arweinwyr ar gymdeithas. Mae'r ysgol yn llwyddiannus iawn wrth hyrwyddo camau positif i atal ymddygiad gormesol. Mae'r ystod o ymweliadau addysgol cyffrous a chyfleoedd i berfformio yn cyfrannu'n dda tuag at hunanhyder a medrau creadigol llawer o ddisgyblion.

Mae'r trefniadau ar gyfer rheoli'r safle a diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

| 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth | Da |
|---|---|

Mae'r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth glir sy'n seiliedig ar roi'r cyfle gorau posibl i bob plentyn i lwyddo mewn amgylchedd diogel a hapus. Mae'n rhannu'r weledigaeth ymysg yr holl randdeiliaid gan hybu gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol uchel. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol i sicrhau ethos gofalgar tu

hwnt. Maent yn deall ac yn ymateb i anghenion y disgyblion yn dda iawn ac mae gan gymuned yr ysgol ffocws effeithiol ar godi dyheadau disgyblion bregus a'u rhieni. Mae'r pennaeth a'r uwch dîm rheoli yn adnabod gwead y gymuned yn dda iawn. Maent yn cydweithio'n llwyddiannus gyda'i gilydd ac yn gosod disgwyliadau uchel iddynt eu hun, i'r staff a'r disgyblion. Mae hyn yn un o gryfderau'r ysgol, sydd yn cael effaith sylweddol ar addysg a safonau lles y rhan fwyaf o ddisgyblion.

Mae'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn ac yn datblygu eu dealltwriaeth o safonau'r ysgol yn briodol trwy gymryd rhan yn y broses hunanarfarnu a monitro cynnydd y cynllun datblygu. Fodd bynnag, maent yn or-ddibynnol ar wybodaeth gan y pennaeth ac nid ydynt yn herio'r ysgol fel cyfaill beirniadol yn ddigon cadarn. Nid ydynt wedi llwyddo i osod cyfeiriad strategol digon clir o ran cytuno ar statws ieithyddol yr ysgol.

Mae trefniadau cynhwysfawr yn eu lle er mwyn gwerthuso gwaith yr ysgol yn drefnus. Mae arweinwyr yn rhannu cyfrifoldebau yn effeithiol, gan ddilyn rhaglen monitro drylwyr sy'n ystyried ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Maent yn casglu barnau rhieni a disgyblion yn effeithiol. Mae hwn yn gryfder yn yr ysgol ac yn sicrhau bod gan y disgyblion lais clir o ran gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau lles. Mae'r adroddiadau monitro arfarnol yn cyfrannu i'r adroddiad terfynol ac yn dangos bod gan arweinwyr ddarlun clir o gryfderau'r ysgol a'r rhan fwyaf o feysydd i wella.
Mae cyswllt agos rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu. Mae'r cynllun yn fanwl ac yn diffinio camau gweithredu perthnasol a mesuradwy ar gyfer gwella. Mae'r prosesau gwella ansawdd sefydledig yr ysgol yn sicrhau bod arweinwyr wedi ymateb yn bwrpasol i lawer o argymhellion yr arolygiad blaenorol.

Mae arweinwyr yn datblygu staff a rheoli adnoddau yn llwyddiannus i gefnogi disgyblion a sicrhau gwelliant. Mae gan yr ysgol nifer buddiol o athrawon a chynorthwywyr dysgu i ymateb i ofynion y cwricwlwm. Mae staff yn cefnogi'i gilydd yn dda ac yn cydweithio'n gyson i gefnogi'r disgyblion. Mae cynorthwywyr dysgu yn cefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion yn llwyddiannus. Mae arweinwyr yn sicrhau cyfleoedd gwerthfawr ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus athrawon a chynorthwywyr. Enghraifft dda o hyn yw'r hyfforddiant ar asesu ar gyfer dysgu sydd wedi arwain at ddefnydd cadarn yn y rhan fwyaf o ddosbarthiadau. Mae amcanion rheoli perfformiad pwrpasol yn targedu'n dda ar ofynion ysgol gyfan, codi safonau disgyblion ac anghenion proffesiynol y staff. Mae hyn yn cael effaith dda iawn ar safon yr addysgu drwy'r ysgol.

Mae'r ysgol hefyd yn meithrin cydweithio effeithiol ag ysgolion eraill tebyg. Trwy hyn, mae cyfleoedd buddiol i rannu profiadau ac arfer dda i gryfhau'r arweinyddiaeth, y ddarpariaeth a chodi safonau.

Mae arweinwyr yn rheoli'r gyllideb ac yn monitro effaith gwariant yn drylwyr. Mae gwariant yr ysgol yn cysylltu'n dda â'i chynlluniau ar gyfer gwella. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd da o'r Grant Amddifadedd Disgyblion er mwyn codi safonau a lles disgyblion.

## Ynglŷn â'r ysgol

Lleolir Ysgol Llanfawr yng Nghaergybi yn awdurdod lleol Ynys Môn. Diffinnir yr ysgol fel un trawsnewidiol, cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg.

Mae 43% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn cinio ysgol am ddim. Mae gan 35% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Daw 15% o'r disgyblion o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn iaith yr aelwyd ac mae ychydig iawn o gefndir lleiafrif ethnig.

Ar hyn o bryd, mae 291 disgybl rhwng 3 ac 11 ar gofrestr yr ysgol, ffigwr sy'n cynnwys 40 disgybl meithrin rhan-amser. Fe'u rhennir yn 10 dosbarth. Cyflogir 12 o athrawon amser llawn, gan gynnwys y pennaeth. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2010. Mae'r pennaeth yn ei swydd ers Ionawr 2009.

## Atodiad 1: Tabl cryno meysydd arolygu

| | |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa farnau pedwar pwynt, sef:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arfer gadarn, gyson |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol, angen gwella** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol, angen gwella ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

# Atodiad 2: Data perfformiad

**6602169 - Ysgol Llanfawr**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 261 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 47.0 | |
| Grŵp PYD | 5 | (32%<PYD) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 22 | 29 | 31 | 35 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 81.8 | 75.9 | 77.4 | 80.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 3 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 22 | 29 | 31 | 35 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 81.8 | 79.3 | 77.4 | 82.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 31.8 | 37.9 | 38.7 | 31.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 2 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 22 | 29 | 31 | 35 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 86.4 | 89.7 | 80.6 | 82.9 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 36.4 | 20.7 | 58.1 | 28.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 3 | 1 | 2 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 22 | 29 | 31 | 35 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 90.9 | 100.0 | 93.5 | 91.4 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 54.5 | 86.2 | 93.5 | 51.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

# Adroddiad ar Ysgol Llanfawr
Tachwedd 2016

**6602169 - Ysgol Llanfawr**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 261 |
| Disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 47.0 |
| Grŵp PYD | 5 (32%<PYD) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 31 | 19 | 21 | 31 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 83.9 | 89.5 | 90.5 | 90.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 1 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 31 | 19 | 21 | 31 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 83.9 | 89.5 | 90.5 | 90.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 41.9 | 36.8 | 42.9 | 19.4 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 4 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 31 | 19 | 21 | 31 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 87.1 | 89.5 | 95.2 | 93.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 48.4 | 47.4 | 42.9 | 25.8 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 3 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 31 | 19 | 21 | 31 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 90.3 | 89.5 | 95.2 | 90.3 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 61.3 | 36.8 | 42.9 | 29.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 3 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai’r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw’n ddigon trylwyr i’w chyhoeddi, os nad yw’n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae’r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy’n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy’n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy’n debyg i’r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Defnyddiom yr arolygiad hwn i roi datblygiadau i'r fframwaith arolygu cyffredin, y broses arolygu a fformat yr adroddiad arolygu ar brawf. Byddwn yn adolygu'r trefniadau hyn ac yn gwneud unrhyw newidiadau sy'n ofynnol cyn eu cyflwyno'n genedlaethol ym Medi 2017.

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor,
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 27/01/2017**